CCDC Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru
DIAW Digital Inclusion Alliance Wales

# O Gynhwysiant i Wydnwch: Agenda ar gyfer Cynhwysiant Digidol

## Adroddiad Cynnydd

Gorffennaf 2024



# Cyflwyniad

**Crëwyd Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru (CCDC) fel rhan o raglen Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Lles, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'i darparu gan Cwmpas. Mae CCDC yn dwyn ynghyd sefydliadau o bob cwr o Gymru sy'n gweithio gyda'i gilydd i wneud Cymru yn genedl sy'n gynhwysol yn ddigidol.**

Gyda dros 100 o aelodau, mae CCDC yn cynnwys sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, cwmnïau'r sector preifat a'r byd academaidd, sydd oll yn canolbwyntio ar sicrhau bod pawb sy'n dymuno yng Nghymru yn gallu cael mynediad at offer a thechnolegau digidol a'u defnyddio yn eu bywydau bob dydd a bod ganddynt yr hyder i wneud hynny.

Cynhyrchodd CCDC rifyn cyntaf yr 'Agenda ar gyfer Cynhwysiant Digidol: O Gynhwysiant i Wydnwch' yn 2021, gan amlinellu pum maes blaenoriaeth a ddaeth yn ffocws ar gyfer cyfarfodydd Rhwydwaith CCDC a gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael ag allgáu digidol. Ym mis Mawrth 2023, rhyddhawyd ail rifyn, yn cydnabod newidiadau sylweddol yn y dirwedd cynhwysiant digidol ac yn dathlu cyflawniadau aelodau. Yn awr, wrth i newid gwleidyddol agosáu yn y DU ac yng Nghymru, mae'n bryd cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y pum maes blaenoriaeth hynny.

Mae allgáu digidol yn parhau i fod yn broblem fawr a chymhleth. Mae trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus yn ddigidol a'r ffaith bod mwy a mwy o'n bywydau beunyddiol yn cael eu cynnal ar-lein yn golygu bod y rhai nad ydynt yn gallu cael mynediad i'r byd digidol yn cael eu hallgáu o gymdeithas. Y nifer anghymesur o bobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol hefyd yw'r rhai sydd â'r angen mwyaf am wasanaethau, gan greu Deddf Gofal Gwrthgyfartal Ddigidol. Mae CCDC yn ymroddedig i'w blaenoriaethau ac i feithrin cydweithrediad rhwng sefydliadau er mwyn cefnogi pawb yng Nghymru i gael eu cynnwys yn ddigidol.

## Blaenoriaeth 1



# Gwreiddio cynhwysiant digidol ar draws pob sector

**Ym mis Rhagfyr 2023, cynigiwyd cwtogi cyllideb y rhaglen cynhwysiant digidol a ariennir gan Lywodraeth Cymru, Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Lles. Amlygodd y toriad arfaethedig hwn ba mor bwysig yw hi fod CCDC yn bodoli fel rhwydwaith cymorth i ddod â sefydliadau ynghyd i helpu ei gilydd i ymwreiddio a chymryd perchnogaeth o gynhwysiant digidol.**

Amlygodd hefyd ei bod yn hanfodol bod rhaglen genedlaethol ar waith i gyflawni'r rhaglen o gymorth ymarferol i sefydliadau. Cafodd y penderfyniad i dorri cyllid ei wrthdroi, ond mae CDC wedi adolygu ei blaenoriaethau ac mae cefnogi sefydliadau i ymgorffori cynhwysiant digidol yn hanfodol i'w gwaith ym mlwyddyn olaf y rhaglen. Bydd CCDC yn parhau i gefnogi'r gwaith hwn fel un o'i phum prif flaenoriaeth.

Mae gwreiddio cynhwysiant digidol yn ymwneud â mabwysiadu ymagwedd sefydliad cyfan, a bydd y daith yn wahanol i bob sefydliad. Mae aelodau Rhwydwaith CCDC yn arwain y ffordd, gan rannu eu profiadau o wneud hyn gyda'i gilydd yn ystod cyfarfodydd Rhwydwaith CCDC. Mae aelodau fel Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Ymddiriedolaeth Ysbyty Prifysgol Felindre, Cymdeithas Tai Newydd a Hafod wedi cymryd camau gyda chymorth CDC i ennill Achrediad Siarter Cynhwysiant Digidol sy'n cefnogi sefydliadau i ymgorffori cynhwysiant digidol.

Nod hanfodol yw codi ymwybyddiaeth o'r cyfraniad y gall cynhwysiant digidol ei wneud i saith Nod Llesiant Cenedlaethol Cymru o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015). Mae'r Cynlluniau Llesiant a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n nodwedd allweddol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, braidd yn sôn am gynhwysiant digidol, sy'n golygu bod llawer o waith i'w wneud o hyd yn y maes hwn.

# Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol: Blaenoriaeth 1

- **Cymorth Cenedlaethol:** Ariennir rhaglen genedlaethol i roi cymorth i sefydliadau ymgorffori a chymryd perchnogaeth o gynhwysiant digidol.

- **Integreiddio Strategol:** Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer y Strategaeth Ddigidol i Gymru sy'n ystyried ymchwil ar yr Isafswm Safon Byw Ddigidol ac yn ymgorffori blaenoriaethau CCDC.

- **Ymrwymiad y Sector Cyhoeddus:** Mae cynhwysiant digidol defnyddwyr gwasanaeth a staff yn elfen ofynnol o holl brosiectau trawsnewid digidol y sector cyhoeddus.

- **Codi Ymwybyddiaeth:** Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydliadau'r sector cyhoeddus yn cynnwys eu gwaith ar gynhwysiant digidol mewn Cynlluniau ac Amcanion Llesiant yn y dyfodol.

## Blaenoriaeth 2



# Prif ffrydio cynhwysiant digidol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

**Cyhoeddwyd y Strategaeth Digidol a Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2023 ac mae'n dangos cynnydd amlwg mewn ymwybyddiaeth o gynhwysiant digidol o gymharu â strategaeth 2015.**

Pwysleisiodd Mike Emery, Prif Swyddog Digidol ac Arloesedd (Iechyd a Gofal Cymdeithasol) GIG Cymru/Llywodraeth Cymru, mewn cyfarfod gan Rwydwaith CCDC, swyddogaeth hanfodol cynhwysiant digidol yn y strategaeth newydd a'r ymrwymiad i gydweithio ag aelodau CCDC.

Mae aelodau iechyd a gofal cymdeithasol CCDC, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Ymddiriedolaeth Ysbyty Prifysgol Felindre, Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a Llais, oll wedi cynnwys cynhwysiant digidol mewn strategaethau a rhaglenni newydd ac maent yn arwain y ffordd ar gyfer byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau eraill ledled Cymru.

Mae CCDC yn cyflwyno ochr yn ochr â CDC i bob un o garfannau MSc Arweinyddiaeth mewn Trawsnewid Digidol ym Mhrifysgol De Cymru am bwysigrwydd ymgorffori cynhwysiant digidol mewn sefydliadau ac ym mhob prosiect a rhaglen trawsnewid digidol. Mae'n hanfodol bod arweinwyr y sector cyhoeddus yn deall ac yn ymgorffori cynhwysiant digidol ar draws eu sefydliadau. Mae'r radd MSc hon yn rhan o'r Academïau Dysgu Dwys sydd wedi'u hymgorffori yn y Strategaeth Digidol a Data ar gyfer Iechyd a Gofal yng Nghymru.

# Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol: Blaenoriaeth 2

- **Cynwysoldeb:** Mae pob darparwr iechyd a gofal yng Nghymru yn cydnabod cynhwysiant digidol fel penderfynydd iechyd allweddol ac yn cefnogi cleifion a gofalwyr i gael mynediad digidol, sgiliau a hyder.

- **Gweithredu Strategol:** Mae'r sector iechyd a gofal yn cyflawni'r weledigaeth cynhwysiant digidol yn ei strategaeth, gan sicrhau bod cynhwysiant digidol y gweithlu iechyd a gofal a dinasyddion yn ofyniad ym mhob penderfyniad ynglŷn â buddsoddi mewn iechyd digidol.

- **Hygyrchedd:** Mae'r holl wasanaethau a chynnyrch digidol yn cael eu dylunio gan ddefnyddio dulliau cydgynhyrchu neu egwyddorion dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr i fodloni safonau hygyrchedd ac anghenion dinasyddion Cymru a'n gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

## Blaenoriaeth 3

# Mynd i'r afael â thlodi data fel prif broblem



**Mae'r argyfwng costau byw parhaus yng Nghymru yn gwaethygu tlodi data ac allgáu digidol. Mae angen cymorth parhaus gan fod mwy o unigolion, a oedd wedi'u cynnwys yn ddigidol yn flaenorol, bellach yn mynd i dlodi.**

Mae allgáu digidol yn dyfnhau anghydraddoldebau ar hyn o bryd drwy gyfyngu ar fynediad at adnoddau a chyfleoedd hanfodol. Mae'r rhai heb fynediad digidol yn cael eu gadael ar ôl, gan ehangu'r bwlch rhyngddynt a'r rhai sy'n gallu cymryd rhan lawn yn y byd digidol.

Mae ymchwil yn ddiweddar ar yr Isafswm Safon Byw Ddigidol ar gyfer teuluoedd sydd â phlant yn dangos bod tlodi yn un o'r prif ffactorau sy'n gyrru teuluoedd i fod islaw'r safon.

Mae cyfweliadau â theuluoedd sydd islaw'r Isafswm Safon Byw Ddigidol i Gymru yn awgrymu bod rhai yn dod o hyd i ffyrdd o ddiwallu anghenion digidol eu teulu ond ar draul hanfodion eraill. Mae ymchwil ar yr Isafswm Safon Byw Ddigidol hefyd yn awgrymu efallai na fydd tariffau cymdeithasol ar gyfer band eang yn diwallu anghenion teuluoedd.

Nid yw mynediad at y rhyngrwyd yn cael ei ystyried yn gyfleustod hanfodol yng Nghymru o hyd, ond bydd y gwaith o weithredu'r Isafswm Safon Byw Ddigidol a chyllid ar gyfer gwaith ymchwil pellach i fathau eraill o aelwydydd yn helpu i ddeall a mynd i'r afael â'r problemau hyn yn effeithiol.

Mae'r Banc Data Cenedlaethol a'r Banc Dyfeisiau a thariffau cymdeithasol yn achubiaeth bwysig, ond mae angen atebion cynaliadwy hirdymor sy'n canolbwyntio'n benodol ar Gymru o hyd.

# Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol: Blaenoriaeth 3

- **Cyfleustodau Hanfodol:** Mae mynediad at y rhyngrwyd yn cael ei gydnabod fel cyfleustod hanfodol yng Nghymru a darperir mynediad i bob dinesydd.

- **Cymorth Cydlynol:** Mae'r cymorth sydd ar gael yn cael ei hyrwyddo'n gydgysylltiedig, fel tariffau cymdeithasol gostyngol ar gyfer data band eang a symudol a'r Banc Data Cenedlaethol. Mae cydweithredu traws-sector yn parhau i ymchwilio a dylunio atebion cynaliadwy, hirdymor i dlodi data, gan ganolbwyntio'n benodol ar Gymru.

- **Mynediad Am Ddim a Chyfartal:** Dylai fod mynediad am ddim a chyfartal at wasanaethau cyhoeddus i bawb yng Nghymru. Dylai pob gwefan ac ap gwasanaeth cyhoeddus fod ar gyfradd sero neu wedi'i dylunio i leihau'r defnydd o ddata cymaint â phosibl.

## Blaenoriaeth 4



# Blaenoriaethu sgiliau digidol hanfodol ar gyfer gwaith a bywyd yn yr economi

**Mewn arolwg ym mis Rhagfyr 2023, dim ond 13% o aelodau CCDC oedd yn cytuno bod y ddarpariaeth bresennol o hyfforddiant sgiliau digidol i oedolion yng Nghymru yn ddigonol.**

Mae ymyriad wedi'i dargedu at y dinesydd yn Sir Ddinbych gan aelod o CCDC, Hyder Digidol Sir Ddinbych, a ariennir gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin, wedi tanio diddordeb awdurdodau lleol eraill ac mae rhaglen debyg yn cael ei rhoi ar waith ym Mhowys. Gallai'r math hwn o ymyriad, gyda chymorth galw heibio a chymorth wedi'i amserlennu ar gael i unrhyw un o'r ardal leol, fel rhan o ddull deublyg gyda chymorth i sefydliadau ymgorffori cynhwysiant digidol yn eu cynigion sefydlu a Dysgu a Datblygu, fod y dyfodol ar gyfer hyfforddiant sgiliau digidol yng Nghymru.

Mae map rhyngweithiol sy'n dangos ble i gael cymorth i fynd ar-lein yng Nghymru wedi cael ei lansio, gyda chyfraniadau gan aelodau CCDC. Mae angen diweddariadau a hyrwyddiad parhaus ar yr adnodd hwn i wneud y mwyaf o'i ddefnyddioldeb.

Mae CDC yn parhau i gynnal archwiliadau sgiliau digidol gyda sefydliadau ledled Cymru ac mae wedi casglu data hanfodol i helpu'r sefydliadau hyn i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata am fentrau cynhwysiant digidol. Bydd CCDC yn parhau i hyrwyddo archwiliadau i'w haelodau fel cam hollbwysig wrth ymgorffori cynhwysiant digidol.

# Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol: Blaenoriaeth 4

- **Mynediad at Hyfforddiant:** Mae gan bob oedolyn yng Nghymru fynediad at hyfforddiant sgiliau digidol sylfaenol a meithrin hyder sy'n barhaus ac yn briodol.

- **Penderfyniadau a yrrir gan Ddata:** Cynhelir archwiliad sgiliau digidol o weithwyr ledled Cymru gan gyflogwyr a defnyddir y data a gesglir i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata am ymyriadau sgiliau digidol.

- **Cydlynu mewn Ariannu:** Mae Bargeinion Twf a Dinas-ranbarthau yn gweithio i sicrhau bod cynhwysiant digidol yn parhau i fod yn flaenoriaeth o fewn ffrwd ariannu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a bod gweithgareddau cynhwysiant digidol yn cael eu cydlynu i osgoi dyblygu.

Blaenoriaeth 5



# Gweithredu safon byw ddigidol ofynnol newydd

**Mae cysylltiad agos rhwng CCDC a'r ymchwil am Isafswm Safon Byw Ddigidol i Gymru. Mae CCDC wedi cefnogi'r gwaith hwn fel un o'i phum prif flaenoriaeth yn yr 'Agenda ar gyfer Cynhwysiant Digidol: O Gynhwysiant i Wydnwch' ers ei chyhoeddi yn wreiddiol ym mis Mawrth 2021.**

Mae aelodau CCDC yn rhan o'r tîm ymchwil ac mewn grwpiau ffocws ac arolygon ac yn defnyddio llais torfol CCDC i godi ymwybyddiaeth o'r gwaith hwn. Roedd tîm ymchwil yr Isafswm Safon Byw Ddigidol o Brifysgolion Lerpwl a Loughborough a'r Good Things Foundation yn bresennol ar-lein yng nghyfarfodydd Rhwydwaith CCDC. Roeddent hefyd yn bresennol mewn digwyddiad wyneb yn wyneb a gynhaliwyd yng Nghymru yn ddiweddar mewn partneriaeth â CCDC i ddwyn ynghyd uwchranddeiliaid o Lywodraeth Cymru, y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol, a darparwyr cyfathrebu ar gyfer trafodaethau traws-sector ar weithredu Isafswm Safon Byw Ddigidol i Gymru.

Mae gwaith ymchwil ar Isafswm Safon Byw Ryngwladol i aelwydydd sydd â phlant bellach wedi'i gwblhau. Canfu'r ymchwil fod dros 4 o bob 10 teulu yn disgyn islaw'r meincnod a ddiffiniwyd gan y cyhoedd ac nid oes gan 27% o deuluoedd oedolyn sydd â'r sgiliau hanfodol i ddeall a rheoli risg ddigidol. Mae hyn yn dangos yn glir bod y broblem yn llawer ehangach na'r ystadegyn a ddefnyddir yn aml, sef bod 7% o bobl Cymru wedi'u hallgáu'n ddigidol.

Mae CCDC yn cefnogi cyllid pellach ar gyfer gwaith ymchwil ar Isafswm Safon Byw Ddigidol i fathau eraill o aelwydydd – gan adlewyrchu ac adeiladu ar ymchwil newydd megis adroddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 'Dim Mynediad'. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r angen i fentrau cynhwysiant digidol gael eu targedu at bobl hŷn i sicrhau nad ydynt yn cael eu gadael ar ôl yn ystod y trawsnewidiad digidol. Mae'n hanfodol nad yw pobl hŷn yn cael eu hallgáu er mwyn sicrhau eu bod yn byw'n dda yn hirach.

Mae gwaith ymchwil pellach i fathau eraill o aelwydydd yn hanfodol er mwyn deall y broblem yn iawn a dylunio rhaglenni a dyrannu cyllid i dargedu'r rhai mewn angen yn effeithiol.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru hefyd gyflwyniad mewn cyfarfod gan Rwydwaith CCDC yn ddiweddar i rannu gwybodaeth am ei buddsoddiad mewn cynllun peilot arloesol yn ymwneud â'r Isafswm Safon Byw Ddigidol i Gymru gyda thai cymdeithasol. Mae'n gynllun peilot ar raddfa fach sydd wedi'i anelu at breswylwyr tai cymdeithasol, nid dim ond aelwydydd sydd â phlant, ac mae grantiau wedi'u dyfarnu i ddwy gymdeithas dai ar gyfer cynllun peilot naw mis i ddechrau ym mis Gorffennaf 2024. Bydd y cynllun peilot cychwynnol hwn yn darparu mewnwelediadau gwerthfawr i'w cymhwyso'n ehangach yn y dyfodol.

# Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol: Blaenoriaeth 5

- **Ymchwil Gynhwysfawr:** Creu Isafswm Safon Byw Ddigidol i Gymru ar gyfer aelwydydd sydd â phlant yw'r catalydd i Lywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil bellach i ddeall goblygiadau'r Isafswm Safon Byw Ddigidol ar amrywiaeth o aelwydydd a chymunedau sy'n wynebu allgáu digidol yng Nghymru.

- **Ymrwymiad Strategol:** Mae strategaethau, polisïau a chamau gweithredu traws-sector effeithiol yn cael eu datblygu ynghyd ag ymrwymiad ariannol a gwleidyddol i weithredu Isafswm Safon Byw Ddigidol i sicrhau nad oes unrhyw aelwydydd yng Nghymru islaw trothwy'r Isafswm Safon Byw Ddigidol fel rhan o'r weledigaeth ar gyfer cynhwysiant digidol yng Nghymru.



Diolch am ddarllen

Cysylltwch â ni:
diaw@cwmpas.coop
@DIAWales